Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2012**

Amser:
**10:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson / Lara date**
Clercod y Pwyllgor
029 2089 8639 / 8041
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Ymchiliad i ddiogelu'r arfordir - Tystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (10:00 - 11:00) (Tudalennau 1 - 5)

E&S(4)-21-12 papur 1: Llywodraeth Cymru

John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Nicola Edwards, Pennaeth y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Prys Davies, Dirprwy Cyfarwyddwr - Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd

### 3. Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Dŵr: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (11:00 - 12:00) (Tudalennau 6 - 11)

E&S(4)-21-12 papur 2

### 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 12 - 13)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 27 Mehefin a 5 Gorffennaf.

**Ymchiliad i ddiogelu'r arfordir - Papur gan Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth** (Tudalennau 14 - 18)
E&S(4)-21-12 paper 3 - Welsh Government

### 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.24(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

**6. Trafodaeth ar y flaenraglen waith - Tymor yr Hydref 2012 (12:00 - 13:00)** (Tudalennau 19 - 25)

**7. Polisi Amaethyddol Cyffredin - llythyr drafft** (Tudalennau 26 - 35)

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-21-12 papur 1

## Ymchwiliad i Ddiogelu'r Arfordir yng Nghymru – Tystiolaeth gan Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Diben y papur hwn yw rhoi gwybodaeth ynghylch gwaith Llywodraeth Cymru ar reoli'r arfordir, yn enwedig erydu arfordirol a pherygl llifogydd llanw. Mae sylfaen y gwaith hwn i'w weld yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

### Arfordir Cymru

1. Ar hyn o bryd mae oddeutu 415 cilometr o amddiffynfeydd arfordirol wedi'u hadeiladu ar hyd arfordir Cymru, gan amddiffyn asedau o fwy na £8 biliwn rhag erydu arfordirol a llifogydd llanw[1]. Mae hyn yn cynnwys eiddo preswyl a busnes, ffyrdd a rheilffyrdd, a seilwaith ynni, dŵr a charthffosiaeth, ynghyd ag ystod o asedau pwysig lleol a chenedlaethol eraill. Yn ogystal â seilwaith economaidd a dynol, mae 75% o arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n amgylcheddol bwysig.

2. Yn hanesyddol, prin yw'r erydu arfordirol yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 1.4 cilomer² o dir a thri eiddo wedi'u colli yn sgil erydu arfordirol dros y 100 mlynedd diwethaf[2]. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau'r newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y gallai cyfradd y golled gynyddu yn y dyfodol, ac amcangyfrifir bod 346 cilometr (23%) o arfordir Cymru yn erydu[3].

3. Mae canfyddiadau allweddol[4] Cymru yn Rhagolygon Hinsawdd y DU 2009 yn nodi y rhagwelir y bydd lefelau'r môr o amgylch Cymru yn codi oddeutu 20cm erbyn 2050, gyda stormydd mwy dwys yn yr haf a'r gaeaf, gan arwain at stormydd mwy difrifol a thonnau mwy ar ein harfordir.

### Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

4. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn amlinellu pedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:

---

1 Cyfanswm hyd arfordir Cymru yw oddeutu 2740 cilometr, gan gynnwys Ynys Môn ac Ynys Cybi; Cymdeithas Cartograffeg Prydain.
2 O adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd 'Historical Losses to Coastal Erosion – Wales Region' a gomisiynwyd ar gyfer y prosiect Mapio Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol
3 Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr, Prifysgol Plymouth, 2008. http://www.mccip.org.uk/annual-report-card/2007-2008/marine-environment/coastal-erosion.aspx
4 Canfyddiadau allweddol o'r senario allyriadau canolig, gan ddefnyddio amcangyfrif tebygolrwydd canolig.

- lleihau'r sgil-effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- codi ymwybyddiaeth ynghylch perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac ymgysylltu pobl â'r mater;
- ymateb mewn ffordd effeithiol a pharhaus i achosion o lifogydd ac erydu arfordirol;
- blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

**Lleihau'r sgil-effeithiau**

5. Nid oes modd atal na rhwystro pob achos o lifogydd neu erydu arfordirol. Nid yw adeiladu amddiffynfeydd mwy ac uwch yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac bydd perygl yn bodoli o hyd hyn yn oed lle mae modd codi amddiffynfeydd priodol. Fodd bynnag, gallwn gymryd camau i leihau'r sgil-effeithiau a chreu cymunedau cadarnach.

6. Mae gweithio i reoli risg yn cwmpasu mesurau i helpu cymunedau yn ogystal â'r amgylchedd ehangach. Mae rhai mesurau'n ymgorffori prosesau naturiol i gynnig atebion mwy hyblyg a hirdymor, fel troi ardal yn ôl i fod yn orlifdir llanw naturiol, gydag eraill yn canolbwyntio ar wella'n dealltwriaeth fel bod modd i gymunedau ymateb neu baratoi cyn achosion o lifogydd neu wneud cynlluniau hirdymor i leihau colled materol neu bersonol oherwydd erydu arfordirol.

**Gwella'n dealltwriaeth**

7. Elfen allweddol o ran cyfyngu ar sgil-effeithiau achosion o'r fath yw gwella'n dealltwriaeth o risg. Rhan annatod o hyn yw gwaith Canolfan Monitro Arfordirol Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cyhoeddi safonau ar fonitro arfordirol yn ddiweddarach eleni, a gwelliannau parhaus yn y dechnoleg sy'n sail i'n cyfleusterau modelu a mapio.

8. Yn ddiweddar, cwblhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd Fapiau Perygl Erydu Arfordirol, sy'n cynnig cyfres o fapiau cyhoeddus rhyngweithiol ar-lein, a chyfoeth o ddata i randdeiliaid ei ddefnyddio. Mae'r mapiau'n ystyried yr amcanestyniadau newid hinsawdd ac yn seiliedig ar y tebygolrwydd o 50% o'r rhagolygon erydu'n cael eu gwireddu. Maen nhw'n fan cychwyn ar gyfer trafodaethau gyda chymunedau a busnes ynghylch cynaliadwyedd hirdymor lleoliadau arfordirol Cymru, a'r dewisiadau sydd o'u blaen nhw a ni ar gyfer y dyfodol. Mae peth o'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn drwy ddatblygu'n Cynlluniau Rheoli Traethlin, sydd wedi bod yn destun ymgynghori helaeth.

9. Mae mapiau perygl erydu arfordirol yn ategu'r mapiau perygl llifogydd sydd hefyd ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r mapiau hyn yn dangos y

rhannau o arfordir Cymru sydd mewn perygl o lifogydd llanw a graddau tebygol y llifogydd o afonydd (ar sail y tebygolrwydd o 1 y cant (1 mewn 100) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn), y môr (ar sail y tebygolrwydd o 0.5 y cant (1 mewn 200) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn) ac achosion o lifogydd difrifol o afonydd a'r môr (ar sail y tebygolrwydd o 0.1 y cant (1 mewn 1000) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn).

10. Mae'r mapiau'n arwydd o ddealltwriaeth llawer gwell o berygl erydu arfordirol, ond mae'r rhagolygon yn ddibynnol iawn ar gyfradd codi lefel y môr ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, felly bydd angen parhau i fonitro ac adolygu'r sefyllfa.

**Codi ymwybyddiaeth**

11. Mae ymgyrch Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymweld â 242 o gymunedau daearyddol ledled Cymru. Hyd yn hyn mae dros 200 o gynlluniau llifogydd cymunedol wedi cael eu paratoi, gyda mwy nag 80 o'r rheini'n cael eu rhoi ar brawf. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd perygl llifogydd i fod yn barod a deall y perygl hwn yn well.

12. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llawlyfr cyntaf ar gyfer codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd. Mae'r llawlyfr wedi cael ei ddatblygu o werthusiad o'r gwaith codi ymwybyddiaeth sy'n digwydd ledled Cymru, a'i fwriad yw helpu'r rheini sy'n gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r llawlyfr yn ystod oes y Strategaeth Genedlaethol ac ymgorffori cyngor ychwanegol ynghylch risgiau erydu arfordirol.

**Ymateb i achosion**

13. Mae'n bwysig sicrhau, yn ogystal â gweithredu i godi ymwybyddiaeth a lleihau sgil-effeithiau'r risgiau rydyn ni'n eu hwynebu, ein bod yn cynllunio i ymateb i achosion o lifogydd neu erydu. Ddechrau mis Mehefin, roedd llifogydd sylweddol mewn rhannau o'r Canolbarth a'r Gogledd, ac er mai afonydd a dwr ffo oedd y prif resymau dros y llifogydd, roedd yr ymateb yn dangos gwerth cynlluniau argyfwng da.

14. Mae Cymru wedi dioddef llifogydd arfordirol difrifol yn y gorffennol, gyda'r mwyaf difrifol yn Nhywyn ym 1990 pan fu'n rhaid i filoedd o bobl ffoi o'u cartrefi. Rydyn ni hefyd wedi gweld enghreifftiau o erydu yn ddiweddar, gyda rhan o glogwyn yn syrthio ym Mhorthceri ym mis Tachwedd 2011. Mae erydu arfordirol yn tueddu i fod yn broses arafach nag achos o lifogydd. Er bod rhannau o glogwyni yn syrthio a thirlithriadau'n gallu digwydd yn sydyn, maen nhw'n anodd eu darogan felly'n aml mae'r ymateb yn llai brys ac yn hytrach yn fater o addasu dros gyfnod.

**Blaenoriaethu buddsoddiad**

15. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain rhaglen bum mlynedd o waith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gyda chymorth o bron £50m drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Gydag arian cyfatebol Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n buddsoddi dros £100 miliwn yn y rhaglen hon yn ystod y Cynulliad hwn. Bydd hyn yn lleihau'r risg i fwy na 7,000 o eiddo ledled Cymru.

16. Mae'r gyllideb graidd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer 2013/14 a 2014/15 yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Rydyn ni hefyd yn ceisio cyllid cyfalaf ychwanegol o feysydd eraill, gan gynnwys Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

17. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu polisi cyllid cenedlaethol a methodoleg flaenoriaethu, o dan yr enw y Rhaglen Fuddsoddi Sengl. Bydd y Rhaglen Fuddsoddi Sengl ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn amlinellu methodoleg flaenoriaethu a fydd yn ein galluogi i roi ardaloedd Cymru mewn trefn o'r risg mwyaf i'r risg lleiaf. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu buddsoddiad yn y cymunedau â'r risg mwyaf, gyda dulliau ymyrryd priodol yn ôl y gofyn.

**Rheoli Datblygu**

18. Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol hefyd yn cynnwys cymryd camau priodol mewn perthynas â datblygu, fel yr amlinellir yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) 14 a 15. Amcan cyffredinol ein polisïau cynllunio yw sicrhau nad yw gwaith datblygu newydd, yn enwedig datblygu mewn safleoedd bregus, yn digwydd ar orlifdir ac na chaniateir datblygu amhriodol mewn lleoliadau arfordirol anaddas. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y bydd angen rhywfaint o ddatblygu ar orlifdir, gan amlinellu nifer o brofion i'w cynnal lle gellir cyfiawnhau datblygu a rheoli unrhyw beryglon yn briodol drwy gydol oes y datblygiad.

19. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos y gall Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol gynnig polisi cadarn lle cyflwynir ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu ar orlifdir[5].

**Gweithredu, monitro ac adolygu**

20. Mae pawb sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol, neu y mae hyn yn effeithio arnyn nhw, yn gyfrifol am roi'r Strategaeth Genedlaethol ar waith, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Rheoli Peryglon Cymru, a phobl Cymru. Caiff polisïau sy'n cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol eu

---

5 Adroddiad Targed Lefel Uchel 13 2010/11; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

hamlinellu yn y Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Cymru y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu paratoi a Chynlluniau Rheoli Traethlin.

21. Bydd Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn rheoli peryglon llifogydd yn eu hardaloedd. Bwriedir i'r strategaethau hyn gydbwyso anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd, a chreu'r fframwaith i gymunedau gael mwy o lais mewn penderfyniadau rheoli peryglon lleol.

22. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wrthi'n datblygu'u Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2011.

23. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ymwneud â pheryglon llifogydd y môr a pheryglon ehangach erydu arfordirol. Grwpiau Peirianneg Arfordirol sy'n eu llunio, sef gweithgorau dan arweiniad awdurdodau lleol arfordirol, gyda chynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ymysg eraill.

24. Mae pedwar Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer Cymru, gyda phob un yn cwmpasu nifer o gymunedau arfordirol a chyfres o amddiffynfeydd. Maen nhw'n manylu polisi traethlin arfaethedig i leihau'r peryglon i bobl, eiddo a thir, ac mae disgwyl eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2012.

25. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd ar roi'r Strategaeth Genedlaethol ar waith. Cyhoeddir adroddiadau ar roi'r Strategaeth Genedlaethol ar waith bob dwy flynedd. Byddant yn rhan o asesiad ehangach o berygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a sut caiff y risg hwnnw ei reoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adroddiadau a'r asesiadau i nodi arfer da, tueddiadau a materion i'w datrys, gan weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â nhw lle bo hynny'n briodol.

26. Disgwylir cynnal adolygiad cyntaf y Strategaeth Genedlaethol yn 2016.

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

### E&S(4)-21-12 papur 2

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio.

Gweler yn ynghlwm linc i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio.

Legislative Consent Memorandum - Enterprise and Regulatory Reform Bill

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **09:00 – 14:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700001_05_07_2012&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_05_07_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw**<br>**Keith Davies**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees** |
| Tystion: | **Steve Cook, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**<br>**Phil Dyke, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**<br>**Dr Susan Gubbay, Cyngor Cefn Gwlad Cymru**<br>**Greg Guthrie, Royal Haskoning**<br>**Graham Hillier, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**<br>**Emlyn Jones, Canolfan Monitro Arfordir Cymru**<br>**Kevin Owen, Atkins**<br>**Louise Pennington, Canolfan Monitro Arfordir Cymru**<br>**Marcus Philips, Halcrow**<br>**Dr Nicola Rimington, Cyngor Cefn Gwlad Cymru**<br>**Neville Rookes, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Kath Winnard, Atkins** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas, Llyr Huws Gruffydd ac Antoinette Sandbach. Nid oedd dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru - tystiolaeth lafar
2.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor ar ddiogelu’r arfordir.

2.2 Cytunodd Dr Rimington i ddarparu papurau gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y mentrau sy’n cael eu datblygu o ran defnyddio prosesau naturiol at ddibenion diogelu.

2.3 Cytunodd Mr Dyke i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ynghylch a yw gwerthusiad yr Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o gynllun Pathfinder ar gael.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod.
3.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o’r cyfarfod.

## 4. Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir - trafod y dystiolaeth
4.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar ddiogelu’r arfordir.

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o’r cyfarfod.

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-21-12 papur 3

## Ymchwiliad i Ddiogelu'r Arfordir yng Nghymru – Papur gan Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

**1. Cyflwyniad**

1.1. Diben y papur hwn yw gosod tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ymwneud â'r ymchwiliad i Ddiogelu'r Arfordir yng Nghymru.

**2. Crynodeb**

2.1. Mae'r papur hwn yn amlinellu pwysigrwydd amgylchedd yr arfordir i dwristiaeth yng Nghymru, ac yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch fy swyddogion twristiaeth a'n partneriaid i wneud y gorau o werth amgylchedd yr arfordir i economi ymwelwyr Cymru.

**3. Cefndir**

3.1. Amgylchedd yr arfordir yw un o'r nodweddion pwysicaf ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Yn wahanol i gyrchfannau eraill ym Mhrydain, mae teithiau i lan y môr/ yr arfordir ymhell ar frig y farchnad wyliau yng Nghymru, ar 44%. Yn ail mae pentrefi/ cefn gwlad ar 26% (Ffynhonnell: GTBS 2011).

3.2. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio dros gydnabyddiaeth ryngwladol i amgylchedd arfordirol Cymru fel un o'r goreuon yn Ewrop o ran safon ei thraethau, cadwraeth a rheolaeth bioamrywiaeth, ac ansawdd dŵr y môr. Gellir defnyddio'r nodweddion cadarnhaol hyn i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth arfordirol.

3.3. O ran erydiad arfordirol, mae rhai o'n safleoedd diwylliannol mwyaf arwyddocaol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd a/ neu erydiad. Mae safleoedd twristaidd naturiol a gwneud fel llwybrau arfordirol, gwarchodfeydd natur, henebion a thraethau mewn ardaloedd sydd mewn perygl.

3.4. Er nad yw fy adran yn uniongyrchol yn datblygu rhaglenni sy'n targedu erydiad arfordirol a pheryglon llifogydd, mae'n arwain ar fater datblygu cynaliadwy ar hyd yr arfordir ac yn buddsoddi yn y seilwaith, cyfleusterau hamdden, ansawdd a rheolaeth gynaliadwy.

3.5. Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r adran adfywio (Tai, Adfywio a Threftadaeth) er mwyn sicrhau bod datblygiadau twristaidd o

fewn yr ardaloedd adfywio arfordirol yn cyfrannu at amcanion strategol cyffredinol y sector, ac yn eu cefnogi. Rydym yn parhau i gydweithio drwy'r adolygiad adfywio cyfredol er mwyn sicrhau bod twristiaeth yn chwarae rhan strategol yng nghyfeiriad polisi adfywio trefi glan môr yn y dyfodol.

## 4. Strategaeth Twristiaeth yr Arfordir

4.1. Lansiwyd Strategaeth Twristiaeth yr Arfordir Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2008. Mae'n gosod strategaeth gyffredin ar gyfer datblygu twristiaeth arfordirol sy'n gwireddu potensial economaidd arfordir Cymru ac yn adeiladu arno, gan barchu'r ansawdd amgylcheddol a chydnabod pwysigrwydd manteision cymunedol ar yr un pryd. Mae Twristiaeth Arfordirol yn arbennig o ddibynnol ar ansawdd yr amgylchedd naturiol a nodweddion diwylliannol unigryw Cymru - nodweddion sy'n medru cael eu dinistrio o gael eu cynllunio neu eu rheoli mewn ffordd wael. Gall yr amgylchedd naturiol hefyd roi hwb i’r nodweddion hyn drwy godi ymwybyddiaeth, neu’n anuniongyrchol drwy ddarparu cyfiawnhad economaidd dros fuddsoddi. Mae strategaeth twristiaeth yr arfordir yn edrych yn uniongyrchol ar sialensiau datblygu twristiaeth arfordirol mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

## 5. Partneriaeth Môr Glas

5.1. Nod Partneriaeth Môr Glas yw sicrhau camau ymarferol i wella ansawdd amgylchedd ein harfordir mewn ffordd gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau a defnydd diogel o'n traethau.

5.2. Ers ei lansio ym mis Mai 1996, mae'r bartneriaeth wedi annog defnydd o'r codau ymddygiad a'r codau morol sydd eisoes yn weithredol yng Nghymru ac wedi llwyddo’n sylweddol i wella ansawdd arfordir Cymru a chynyddu'r nifer o draethau sydd wedi ennill gwobrau yng Nghymru. Yn 2012 llwyddodd Cymru i ennill y gwobrau traethau canlynol:-

- 43 Traeth Baner Las,
- 5 Marina Baner Las,
- 51 Gwobr Arfordir Glas,
- dros 100 Gwobr Glan Môr.

5.3. Yn 2010, dewiswyd dau awdurdod arfordirol i yrru'r Prosiect Môr Glas ar ran holl awdurdodau arfordirol Cymru. Mae'r prosiect hwn bellach yn rhan o Brosiect Twristiaeth Arfordirol cyffredinol Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G) y rhaglen Gydgyfeirio.

## 6. Amgylchedd ar gyfer Twf – Twristiaeth Arfordirol a Thwristiaeth Cynaliadwy

6.1. Nod y ddau brosiect UE ar Dwristiaeth Arfordirol a Thwristiaeth Cynaliadwy yw gwahodd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd i wella'u hiechyd, lleihau straen a dysgu mwy am bob agwedd o'r amgylchedd drwy fanteisio ar asedau awyr agored cenedlaethol.

6.2. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, roedd pob “Canolfan Ragoriaeth” arfaethedig yn ddibynnol ar ymgynghoriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch polisïau cynllunio a rheoliadau yn effeithio ar ddatblygiadau arfordirol (h.y. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig), diogelu cynefinoedd amgylcheddol yr UE a pholisïau perthnasol eraill.

6.3. Mae Croeso Cymru'n parhau i weithio gyda'r arweinwyr prosiect, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdodau Lleol o ran polisïau yn ymwneud â Chynlluniau Rheoli Traethlin a'r Parthau Cadwraeth Morol arfaethedig yng Nghymru.

6.4. Mae'r prosiect Twristiaeth Arfordirol yn canolbwyntio ar ddatblygu cynnyrch chwaraeon dŵr a gweithgareddau twristaidd o safon uchel o amgylch yr arfordir, gan annog gweithgareddau hamdden mwy cynaliadwy, integreiddio trafnidiaeth gynaliadwy a gwella rheolaeth amgylcheddol. Mae'r prosiect wedi cefnogi tair Canolfan Ragoriaeth ar arfordir Cymru:-

- Canolfan Ragoriaeth Aberdaron (Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Canolfan Arfordirol Sir Benfro (Sir Benfro)
- Canolfan Chwaraeon Dŵr Abertawe (Abertawe)

6.5. Amcan Rhaglen Gwelliannau Arfordirol Môr Glas (rhan o Brosiect Twristiaeth Arfordirol E4G) yw sicrhau bod ansawdd traethau - o amgylch arfordir ardal Cydgyfeirio Cymru - yn cael ei gynnal a'i wella er mwyn cyflawni disgwyliadau cynyddol yr ymwelwyr. Cynlluniwyd y rhaglen i wella ansawdd profiad ymwelwyr ar draethau Cymru drwy:

- Ddatblygu'r amgylchedd naturiol drwy well mynediad a mwynhad;
- Darparu/gwella seilwaith, cyfleusterau, hygyrchedd priodol – (h.y. meysydd parcio, llwybrau mynediad, gwybodaeth ymwelwyr, dehongli, toiledau a chyfleusterau amgylcheddol ayyb;
- Monitro gweithgareddau;
- Annog ‘Naws am Le’;
- Dehongli a Naws am Le - gyda chefnogaeth gwelliant yn y ddarpariaeth o wybodaeth a dehongli.

7. **Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)**

7.1. Amcan TISS yw sbarduno mwy o alw o gyfeiriad marchnadoedd newydd a chyfredol drwy annog prosiectau buddsoddi cyfalaf wedi'u hanelu at wella ansawdd cyfleusterau. Mae unrhyw brosiectau buddsoddi mewn twristiaeth drwy TISS yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio ac ymgynghoriad ehangach gydag Awdurdodau Lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar Awdurdodau Lleol neu Barciau Cenedlaethol i ystyried materion diogelu'r arfordir lle bo'n briodol yn ystod y cam cynllunio.

## 8. Mynediad Arfordirol a Llwybr Arfordir Cymru

8.1. Mae Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella hawliau tramwy arfordirol cyfredol, datblygu llwybrau newydd a sicrhau mynediad ar gyfer nifer o grwpiau defnyddwyr gan gynnwys beicwyr, pobl ag anableddau a marchogwyr ceffylau. Ym mis Mai 2012 lansiwyd Llwybr Arfordir Cymru Gyfan gan arwain at sylw sylweddol gan y cyfryngau yn y DU ac yn rhyngwladol.

8.2. Mae fy adran yn cadeirio grŵp marchnata a chyfathrebu Llwybr Arfordir Cymru. Mae gwaith ychwanegol eisoes wedi cychwyn ar lwybrau cylch i ganiatáu i bobl adael yr arfordir ac anelu at drefi a phentrefi, gan ddod â manteision economaidd i gymunedau cefn gwlad Cymru.

9. **Gweithgareddau partneriaeth eraill:**

9.1. Cadw Cymru'n Daclus - datblygu gwefan benodol i annog rheolaeth fwy cynaliadwy o'r arfordir. Bydd y wefan yn cynnwys gwybodaeth allweddol ar broffiliau traethau, treftadaeth forol, bioamrywiaeth, hygyrchedd a rheolaeth gynaliadwy ehangach o'r arfordir. Cefnogi Grwpiau Gofal Arfordir, sy'n grymuso cymunedau lleol, gan eu hannog i gymryd perchnogaeth o faterion penodol gan gynnwys traethau. Ar hyn o bryd mae 136 grŵp yn gweithredu ar hyd arfordir Cymru

9.2. Pecyn Cymunedau Arfordirol - helpu rheolwyr traethau i ddatblygu a darparu ffordd fwy cynaliadwy o reoli arfordiroedd, digwyddiadau a gweithgareddau o amgylch yr arfordir, yn ogystal â gweithgarwch gwybodaeth amgylcheddol allweddol.

9.3. Adroddiad Twristiaeth a Hinsawdd **-** comisiynodd Croeso Cymru adroddiad yn 2010 i edrych ar effeithiau newid hinsawdd ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Bydd Cam 2 yr astudiaeth yn cael ei chomisiynu yn 2012 ac yn clustnodi effeithiau allweddol ar gyfer y diwydiant ac argymhellion ymarferol ar gyfer paratoi datblygiadau twristaidd ar gyfer y dyfodol.

9.4. Datblygu taflenni gwybodaeth a chefnogaeth i fusnesau ar newid hinsawdd gan gynnwys llifogydd, paratoi ar gyfer y dyfodol ac erydiad.

9.5. Archwiliad a Phecyn Twristiaeth Hamdden - Mae Archwiliad Gweithgareddau Hamdden De Orllewin Cymru'n ganllaw defnyddiol i glustnodi ardaloedd twristaidd dan bwysau, a'r swm o weithgareddau o amgylch yr arfordir. Datblygwyd pecyn ar-lein ar gefn y gwaith hwn er mwyn i ranbarthau eraill elwa o'r gwaith a datblygu ffordd debyg o weithio wrth fonitro a rheoli arfordiroedd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon